Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Ian Westley
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd, SA61 1TP

10 Awst 2015

Annwyl Mr Westley

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'ch ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni nifer o'r canlyniadau arfaethedig.

Mae'n dda gen i fod eich sefydliad wedi defnyddio'r adborth adeiladol a roddais yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn gwella'ch ymateb. Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd mewn rhai o'r Anghenion Gweithredu.

Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, erbyn hyn bydd yna gyfeiriadau at y ddarpariaeth eiriolaeth mewn taflenni gwybodaeth i'r cyhoedd ynglŷn â diogelu (Angen Gweithredu 1.6).

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol. Serch hynny, rhaid imi nodi bod dau faes o hyd lle mae angen rhagor o waith er mwyn rhoi sicrwydd imi y bydd y newid a'r gwelliant angenrheidiol yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Byddwn i hefyd yn disgwyl eich gweld yn datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer adolygu a chloriannu er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau yr wyf yn disgwyl eu gweld wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal. Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Sir Penfro

Rwy'n croesawu'r ffaith bod Menter Gydweithredol Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Canolbarth a'r Gorllewin yn dweud y bydd yn parhau i chwarae rhan allweddol mewn lledaenu addysg ac mewn dod ag asiantaethau at ei gilydd i fynd i'r afael â heriau, gan barhau ar siwrnai gyffredin o welliannau.

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dangos dealltwriaeth o rôl eiriolaeth, sef helpu'r rhai sy'n ei defnyddio a siarad ar eu rhan pan fo'n briodol. Mae'r ymateb yn dweud bod gwasanaeth eiriolaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu, ac mae'n cynnwys disgrifiad o'r sefyllfaoedd lle trefnir bod eiriolaeth ar gael.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb yr Awdurdod Lleol, sef bod arna i angen gwybodaeth ynghylch a oedd eiriolaeth yn cael ei darparu o dan yr amgylchiadau a nodwyd yn yr Angen Gweithredu ai peidio. Gan hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr ymateb yn ymateb i hyn yn benodol. Mae'r ymateb yn dweud bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar adegau o

‘newid cymunedol’ penodol neu adeg digwyddiadau unigol, megis pan fydd unigolyn yn cael ei ryddhau o’r ysbyty neu yn ystod cyfnod pan allai cartref gael ei gau. Ar ben hynny, mae’n dda gweld bod cysylltiadau cryfach wedi’u gwneud rhwng diogelu ac eiriolaeth, ac y bydd yna gyfeiriadau bellach at y ddarpariaeth eiriolaeth ar daflenni gwybodaeth i’r cyhoedd. Fe allai’r ffaith bod eiriolaeth ar gael o dan yr amgylchiadau hyn alluogi pobl hŷn i sicrhau eu hawliau a sicrhau bod sylw’n cael ei roi i’w pryderon pan fyddan nhw mewn sefyllfaoedd lle y gallen nhw fod yn agored i niwed.

Mae’r Awdurdod Lleol yn cyflwyno gwasanaeth eiriolaeth newydd ac mae’n dweud ei fod wedi bod yn gweithio â darparwyr eiriolaeth arbenigol i sicrhau bod gwasanaeth di-fwlch ar gael. Ar ben hynny, mae’n dda gweld bod gwaith codi ymwybyddiaeth yn digwydd er mwyn sicrhau bod unigolion a hefyd y sector ei hun yn ymwybodol bod eiriolaeth ar gael.

Rwy’n croesawu’r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i fonitro gweithgareddau ac atgyfeiriadau eiriolaeth, gan y dylai hynny fod yn fodd iddo ddeall realiti mynediad pobl hŷn yng nghartrefi gofal ei ardal i wasanaethau eiriolaeth, ac o ganlyniad fe allai hyn helpu a bwydo gwaith i ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth yn y dyfodol.

Mae’r ymateb yn gosod amserlenni ar gyfer cwblhau’r gwaith hwn ac yn enwi arweinydd atebol, ac fe ddylai hyn ganiatáu i unrhyw newidiadau a wneir yn y gwasanaethau hyn gael eu monitro’n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny’n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol i’r Angen Gweithredu hwn, sef nad oedd fawr o wybodaeth wedi’i rhoi ynghylch pa wasanaethau arbenigol sy’n mynd i gartrefi gofal ar hyn o bryd i ategu

gwaith adsefydlu. Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn ymateb i hyn ac yn cynnig trosolwg ar yr ystod o wasanaethau gofal amlddisgyblaeth, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu darparu yn yr ardal ar hyn o bryd, gan ddweud bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael defnyddio'r rhain.

Mae'r ymateb yn disgrifio hefyd sut y gall gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaeth weithio mewn Tîm Adnoddau Cymunedol i ddarparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol i unigolion sydd ag anghenion cymhleth. Yn ychwanegol at hyn, mae'r ymateb yn disgrifio sut mae'n diwygio'i ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn canolbwyntio'n fwy ar ofal canolradd a gwasanaethau ail-alluogi er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar ofal hirdymor a derbyniadau i'r ysbyty.

Mae'r ymateb yn dweud y bydd yn monitro effeithiolrwydd ac effaith y ddarpariaeth ail-alluogi penodol presennol (sy'n wasanaeth wedi'i gomisiynu). Fe allai'r ymarfer hwn ddod o hyd i arferion da a thynnu sylw at unrhyw fylchau neu ddiffygion yn y gwasanaeth comisiwn penodol hwn. Serch hynny, nid yw'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos ei fod yn arddel yr ymagwedd hon tuag at ddarparu pob gwasanaeth arbenigol a gwasanaeth amlddisgyblaeth.

Er gwaethaf hynny, mae'r ymateb yn croesgyfeirio at ymateb y Bwrdd Iechyd. Gan hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn cyfeirio at nifer o adolygiadau sydd ar eu hanner neu sydd yn yr arfaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth gwasanaethau a fyddai'n helpu'r Bwrdd Iechyd i sicrhau gwell dealltwriaeth o lefel y mynediad i wasanaethau gofal amlddisgyblaeth, arbenigol sy'n ategu adsefydlu. Heb ddeall yn iawn a oes modd i unigolion gael gafael ar y gwasanaethau hyn, fydd y Bwrdd Iechyd ddim yn gallu llunio'r ddarpariaeth i roi cymorth llawn i bobl hŷn yn sgil salwch, sy'n eu galluogi i gynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf.

Mae'r ymateb yn gosod amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn ac yn enwi arweinydd atebol, ac fe ddylai hyn ganiatáu i unrhyw newidiadau a wneir yn y gwasanaethau hyn gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi gwybodaeth am ddarparu hyfforddiant dementia i staff cartrefi gofal ac mae'n dangos ymrwymiad i roi blaenoriaeth i hyfforddiant dementia.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr ymateb yn dweud bod hyfforddiant dementia person-ganolog wedi'i ddarparu ar gyfer pob aelod o staff cartrefi gofal, gan gynnwys y rhai yn y sector annibynnol. Ar ben hynny, bydd parhau â hyn a'i ehangu yn cael blaenoriaeth yng nghynllun gweithredu Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Er ei bod yn dda gweld y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chartrefi gofal i ymgorffori'r hyfforddiant hwn ym mhroses ymsefydlu'r holl staff, byddwn yn disgwyl gweld hyn yn digwydd er mwyn sicrhau bod yr holl staff a fydd yn gweithio mewn cartrefi gofal yn y dyfodol yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia.

Mae'r ymateb yn cynnwys gwybodaeth am nifer o fathau o hyfforddiant ychwanegol mewn dementia sy'n cael eu hystyried, megis yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig gan Dementia Care Matters a Chymdeithas Alzheimer. Mae'n dda gen i weld bod yr Awdurdod Lleol yn ystyried ystod o hyfforddiant dementia, ond rwy'n nodi bod y penderfyniad i gomisiynu cyrsiau o'r fath yn dibynnu ar ddyraniad grant yr SCWDP ac nad oes gwarant y caiff ei ddarparu i staff gofal.

Mae'r Awdurdod Lleol yn comisiynu hyfforddiant ar lefel uwch a rhagor o hyfforddiant wedi'i dargedu sydd â'r potensial i sicrhau bod staff a rheolwyr cartrefi gofal yn gwella'u sgiliau a'u cymwyseddau yn barhaus. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r ffaith y bydd grŵp strategaeth rhanbarthol Hywel Dda ar gyfer dementia yn hyfforddi rheolwyr ac yn cynnal dadansoddiad o'r anghenion hyfforddi yn y sector. Byddwn yn disgwyl i'r hyfforddiant hwn gynnwys pob rheolwr cartref gofal, ac y byddai

rhan o'r strategaeth yn cynnwys sgiliau a chymwyseddau yn y maes hwn fel elfen benodol o waith goruchwylio ac asesu perfformiad.

Mae'r ymateb yn gosod amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn ac yn enwi arweinydd atebol, ac fe ddylai hyn ganiatáu i unrhyw newidiadau a wneir yn y gwasanaethau hyn gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Terfynol - Rhannol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae'r ymateb i'r Angen Gweithredu hwn gan yr Awdurdod Lleol yn rhoi asesiad gonest o'r cynlluniau a'r gweithgareddau cyfeillio sydd ar gael i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Er enghraifft, mae'r ymateb yn dweud bod ystafell ymwelwyr Cyngor Sir Penfro wedi'i darparu, bod gweithgareddau a chludiant yn cael eu trefnu, megis i ymweld â ffrindiau neu'r eglwys a bod cynlluniau cyfeillio ar waith yn yr ardal. Er hynny, mae'r ymateb hefyd yn dweud nad ydyn nhw'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau cyfeillio sy'n gweithio mewn cartref gofal ei hun.

I rai pobl hŷn, mae'n fuddiol ac yn briodol teithio i weithgaredd, ac fe allai hyn alluogi pobl hŷn i gael cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon a chadw eu cysylltiadau ffydd a diwylliant. Er hynny, fe fydd yna bobl hŷn nad yw hyn yn bosibl iddyn nhw. Heb gyfleoedd cyfeillio yn y cartref gofal ei hun, bydd y risg yn parhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartref yn unig, wedi'u hynysu o'r gymdeithas a heb gyfleoedd ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon.

Mae'r ymateb yn dweud bod hyn, a bylchau eraill yn y gwasanaethau, yn gallu cael sylw drwy Fforwm Sector Gwirfoddol y Strategaeth Pobl Hŷn a'i ategu yn y Strategaeth Pobl Hŷn sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Er hynny, mae hefyd yn dweud ei bod yn anodd denu gwirfoddolwyr ar hyn o

bryd. Er fy mod yn nodi bod yna ymgyrch farchnata i godi nifer y gwirfoddolwyr, a bod lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a chynyddu cyfranogiad cymdeithasol yn allbynnau allweddol i'r Strategaeth Pobl Hŷn, nid yw'n ymddangos bod sicrwydd digon cryf yn cael ei roi yn yr ymateb y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei fodloni'n llawn ar adeg benodol mewn amser.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus

pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl am sut mae'r Awdurdod Lleol, ynghyd â'i bartneriaid, yn defnyddio'i Fframwaith Sicrhau Ansawdd i wrando ar farn a phrofiadau pobl hŷn er mwyn dysgu a sbarduno gwelliannau.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod siarad â'r trigolion yn rhan ganolog o'r ymweliadau Sicrhau Ansawdd, a bod amryw o ddulliau'n cael eu defnyddio sy'n fwyaf addas i'r unigolyn er mwyn cynyddu'r cyfle i wrando arnyn nhw gymaint ag y bo modd. Ar ben hynny, mae'r ymateb yn disgrifio'n glir sut mae'r broses hon yn arwain at rannu arferion da a hefyd sut mae wedi sbarduno newidiadau mewn polisïau a chanllawiau er mwyn gwella gwasanaethau.

Er hynny, rhaid imi nodi bod yr ymateb fel pe bai'n cyfeirio at ddulliau ffurfiol yn unig o gasglu barn pobl hŷn fel rhan o'r broses Sicrhau Ansawdd strwythuredig. Ar ben hynny, mae'r ymateb yn cyfeirio at sicrhau ansawdd a sut mae'r Awdurdod Lleol yn gwrando ar bobl hŷn er mwyn deall eu safbwynt ar ansawdd y gwasanaeth. Nid yw fel pe bai'n dangos dealltwriaeth o sut y gall gwrando'n anffurfiol roi dealltwriaeth feunyddiol drylwyr o ansawdd bywyd i gomisiynwyr a darparwyr, o'i chyferbynnu ag ansawdd y gwasanaeth a'r broses sicrhau ansawdd.

Heb y ddealltwriaeth hon, mae yna risg barhaus na fydd barn pobl hŷn am eu hansawdd bywyd yn cael ei chasglu'n rheolaidd, ac y bydd cyfleoedd i wneud newidiadau bach a all wneud gwahaniaeth arwyddocaol yn ansawdd bywyd yn cael eu colli. Rwy'n croesawu'r ffaith y bydd ymgysylltu ag unigolion er mwyn sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar Sicrhau Ansawdd, ond heb y ddealltwriaeth sydd wedi'i disgrifio uchod, dwy ddim yn gwbl sicr y bydd hyn yn cydymffurfio â'm Hangen Gweithredu.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn ymrwymo i gyhoeddi Datganiad Ansawdd Blynyddol a fydd yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal sy'n cael eu comisiynu ac sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod gan bobl hŷn gyfle i weld gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon am yr ansawdd bywyd a'r gofal sy'n cael eu darparu gan gartrefi gofal unigol neu ynddyn nhw, a bod pawb yn fwy agored a thryloyw ynghylch ansawdd cartrefi gofal.